

Craidd

Sbardun 1 - I Ti, 'To

Rwy'n ddarn o glai . . .

Tro fi;

Rwy'n storom . . .

Dofa fi;

Rwy'n gerdd . . .

Sgrifenna fi;

Rwy'n wên . . .

Gwena fi;

Rwy'n filltir . . .

Cerdda fi;

Rwy'n ddeigryn . . .

Wyla fi;

Rwy'n dy garu . . .

Cara fi;

Rwy'n wallgo' . . .

Clo fi lan . . .

Allan o: Pws, Dewi Pws, Y Lolfa. (Allan o brint)

'storom'

Yn y gerdd hon, mae Dewi Pws wedi ysgrifennu 'storom', nid 'storm'. Wrth siarad, rydyn ni'n aml yn gwthio llafariad(a, e, i, o, u, w, y) arall i mewn rhwng dwy gytsain fel 'rm'.

Dyma ragor o enghreifftiau - llenwch y bylchau hefyd!:

Storm	Storom
Llwybr	Llwybyr
Llyfr	Llyfyr
Pobl	
Ochr	
Aml	
Sawdl	

Craidd

Sbardun 2 - Chwedlau serch enwog o Gymru

Y Ferch o Gefn Ydfa

Roedd Ann Thomas (1704-27) yn byw yn Fferm Cefn Ydfa, fferm ym mhlwyf Llangynwyd Isaf, Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n debyg iddi gwympo mewn cariad â'r bardd Wil Hopcyn. Ond, roedd ei rhieni'n anfodlon iawn, a bu'n rhaid iddi briodi Anthony Maddocks, gŵr cefnog lleol.

Torrodd Ann ei chalon a bu farw'n ifanc iawn. Mae hi wedi ei chladdu yn Eglwys Sant Cynwyd.

Mae pobl bob amser wedi meddwl bod y gân 'Bugeilio'r Gwenith Gwyn' yn sôn am stori Ann. Efallai bod Wil Hopcyn wedi ysgrifennu un neu ragor o'r penillion. Ond erbyn hyn, does neb yn meddwl bod cysylltiad.

Rhys a Meinir, Nant Gwrtheyrn

Cafodd Rhys a Meinir yn Nant Gwrtheyrn. Roedden nhw'n ffrindiau pan oedden nhw'n blant, ac yna dechreuon nhw ganlyn. Bydden nhw'n treulio llawer o amser yn sgwrsio o dan hen dderwen. Cyn hir, penderfynon nhw briodi.

Y diwrnod cyn y briodas yn Eglwys Clynnog Fawr, daeth llawer o gymdogion i roi anrhegion i'r pâr ifanc. Roedd pawb yn edrych ymlaen at ddatliad hapus.

Roedd hen draddodiad yn Nant Gwrtheyrn - y Chwilfa Briodas. Byddai'r briodferch yn mynd i guddio ar fore'r briodas a'r priodfab a'i ffrindiau'n chwilio amdani cyn mynd â hi i'r eglwys. Aeth Meinir i guddio, ac ar ôl tipyn, aeth Rhys a'i ffrindiau i chwilio amdani. Ond yn ofer. Doedd dim sôn amdani yn unrhyw le. Ddim y diwrnod hwnnw, a ddim am ddiwrnodau wedyn

O dipyn i beth, anghofiodd pawb am Meinir, heblaw am Rhys. Aeth allan bob dydd am fisoedd. Yna, un noson stormus, pan oedd allan yn chwilio, aeth Rhys i gysgodi o dan y dderwen lle byddai'r ddau gariad yn arfer sgwrsio. Yn ystod y storm, daeth mellten i daro'r goeden a hollti'r boncyff yn ei hanner.

Wrth i ddau hanner y boncyff agor, gwelodd Rhys ysgerbwdd mewn ffrog briodas! Cafodd Rhys drawiad ar ei galon a bu farw yn y fan a'r lle, wrth ochr ei gariad.

Craidd

Sbardun 3 – Calonnau Cacen Sinsir



Cynhwysion

- 300g o flawd plaen
- 1 llond llwy de wastad o garbonad soda
- 2 llond llwy de wastad o bowdr sinsir
- 90g o fenyn
- 80g o siwgr brown
- 125g o driog melyn

Bydd angen y canlynol arnoch:

- 2 dun Swiss roll wedi eu hiro (maint y tun yw tua 35cm x 25cm)
- Torrwr bisgedi siâp calon
- Eisin (gogrwch 125g siwgr eisin a'i gymysgu ag un llwy fawr o ddŵr wedi'i arllwys i mewn yn raddol)
- Ffwrn/Popty 180 C Ffan 160 C Nwy 4

Dull

- 1 Mewn powlen, gogrwch y blawd, y soda a'r sinsir.
- 2 Mewn sosban, toddwch y menyn, y siwgr brown a'r triog yn araf bach.
- 3 Tynnwch y sosban oddi ar y gwres a gadael i bopeth oeri am ychydig.
- 4 Arllwyswch gymysgedd y sosban i'r blawd ac ati yn y bowlen a'i gymysgu'n dda.
- 5 Tylinwch y toes nes ei fod yn llyfn.
- 6 Gadewch i'r cyfan oeri am 30 munud.
- 7 Cynheswch y ffwrn.
- 8 Rholiwch y toes allan i drwch o 5mm.
- 9 Torrwch y calonnau allan â thorrwr siâp calon a'u gosod ar y tuniau pobi.
- 10 Coginiwch am 5 munud, yna gosodwch y bisgedi ar rwyll oeri.
- 11 Addurnwch ag eisin.

O le ddaw'r traddodiad?

Mae'r traddodiad o wneud calonnau cacen sinsir yn mynd yn ôl i'r 16eg a'r 17eg ganrif. Roedd y calonnau'n cael eu gwneud mewn mowldiau pren. Yna, roedden nhw'n cael eu rhoi i gariadon.

Yn yr Almaen, yn enwedig adeg y Nadolig, mae stondinau'n gwerthu calonnau cacen sinsir enfawr gyda negeseuon arbennig wedi'u hysgrifennu mewn eisin lliwgar. Mae'r person sy'n derbyn y galon i fod i'w gwisgo drwy roi'r rhuban dros ei ben.



Llun: oxfordian.world

Estynnol

Sbardun 1 – Serch a Chariad yn yr Hen Benillion

Mae'r hen benillion rhwng 300 a 500 mlwydd oed. Roedd pobl yn eu hadrodd wrth ei gilydd a hefyd yn eu canu i gyfeiliant y delyn (penillion telyn yw'r enw arall arnyn nhw). Yn y ganrif ddiwethaf, cyhoeddodd T H Parry-Williams gasgliad mawr o ryw 750 pennill. Maen nhw'n ymdrin â themâu fel doethineb, natur, profiad, ac mae nifer fawr ar y thema serch a chariad.

Dyma rai ohonyn nhw.

1.

Dacw long yn hwylio'n hwylus
Heibio i'r trwyn ac at yr ynys,
Os fy nghariad i sydd ynddi,
Hwyliau sidan glas sydd arni.

2.

Hardd yw gwên yr haul yn codi
Gyda choflaid o oleuni,
Hardd y nos yw gwenau'r lleuad,
Harddach ydyw grudd fy nghariad.

3.

Tros y môr y mae fy nghalon,
Tros y môr y mae f'ochneidion;
Tros y môr y mae f'anwylyd,
Sy'n fy meddwl i bob munud.

4.

Tra bo eglwys yn Llanelli,
A'r wennol fach yn hedeg drosti,
A thra bo gwyngalch ar ei thalcen,
Caraf i fy siriol seren.

5.

Tri pheth sydd yn anodd imi,
Cyfri'r sêr pan fo hi'n rhewi,
Rhoi fy llaw ar gwr y lleuad,
A gwybod meddwl f'annwyl gariad.

6.

Mae gennyf gariad sydd yn fychan,
Mae yn methu cyrraedd cusan,
Y mae'n gweiddi am stôl i ddringo,
Yn fy myw ni chawn un iddo.

7.

Geiriau mwyn gan fab a gerais,
Geiriau mwyn gan fab a glywais;
Geiriau mwyn sydd dda dros amser,
Ond y fath a siomodd lawer.

Estynnol

Sbardun 2 – Cariadon Enwog

Merch o wlad Pwyl oedd Maria Slodowska. Cafodd ei geni yn Warsaw ym 1867. Roedd ganddi ddiddordeb mawr yn y gwyddorau, a bu'n astudio ym Mhrifysgol Warsaw, prifddinas gwlad Pwyl. Ym 1891, pan oedd yn 24 oed, symudodd i Baris i astudio ar gyfer gradd uwch ym mhrifysgol Sorbonne. Yno, roedd yn cael ei galw'n 'Marie'.

Byddai Marie yn gweithio'n galed iawn ac yn treulio oriau yn y llyfrgell ac yn y labordy. Roedd Pierre Curie yn bennaeth un o'r labordai, a sylwodd ar y fyfyrwraig weithgar hon ym 1894. Cwmpodd Pierre dros ei ben a'i glustiau mewn cariad â Marie, ond roedd hi'n gyndyn o ddechrau carwriaeth gyda'r pennaeth.

Gwnaeth hyn i Pierre fod hyd yn oed yn fwy penderfynol. Gofynnodd i Marie ei briodi sawl gwaith cyn iddi gytuno. Priodon nhw yn 1895 a chawson nhw ddwy ferch. Roedd Marie yn siarad Pwyleg â nhw ac yn mynd â nhw i ymweld â'r teulu yng ngwlad Pwyl yn gyson. Yn ogystal â bod yn wŷr a gwraig, daeth Pierre a Marie Curie yn bartneriaid yn y labordy. Mae'n debyg fod eu cariad at ei gilydd yn eu gyrru i weithio'n galetach.

Ym 1903, enillon nhw Wobr Nobel Ffiseg am ddarganfod ymbelydredd, gyda'r gwyddonydd Henri Becquerel. Roedd y ddau wrth eu bodd â radiwm, metel llawn ymbelydredd a oedd yn pefrio'n las. Bydden nhw'n cario radiwm o gwmpas gyda nhw, ac yn ei gadw wrth ochr y gwely, hyd yn oed. Ar y pryd doedd neb yn sylweddoli pa mor beryglus oedd ymbelydredd radiwm i iechyd pobl, er ei fod yn ddefnyddiol ar gyfer Pelydr-X.

Ar ôl i Pierre farw ym 1906, daliodd Marie ati i weithio ac ym 1911, enillodd Wobr Nobel arall - mewn cemeg y tro hwn. Hi oedd y fenyw gyntaf i ennill y wobr mewn dau faes gwahanol.

Bu Marie farw ym 1934 o salwch gwaed sy'n cael ei achosi gan ymbelydredd.



Marie Curie - dynes enwog a dynes hael

Roedd Marie yn gwybod ei bod hi'n anodd i fenywod symud ymlaen yn eu gyrfa ym maes ffiseg a chemeg. Felly byddai hi'n helpu menywod drwy roi gwaith iddyn nhw yn ei labordai. Hefyd, byddai hi'n rhoi arian y gwobrau roedd hi'n eu hennill yn ôl i'r manau lle roedd hi'n gweithio.

Estynnol

Sbardun 3 – Llwyau caru

Heddiw, bydd dynion ifanc yn rhoi siocledi neu flodau i ddangos eu bod yn hoffi merch. Ond dychmygwch sut roedd hi ganrifoedd yn ôl. Doedd y siopau ddim yn gwerthu siocledi a blodau, felly roedd rhaid gwneud rhywbeth i'w rhoi i ferch. Roedd rhai dynion yn gwneud cacennau neu felysion, ond roedd rhai'n rhoi anrheg arbennig, sef llwy garu neu lwy serch.

Doedd dim ceir, beiciau modur, radio, teledu, ffilmiau na gemau cyfrifiadur ganrifoedd yn ôl. Felly, ar ôl diwrnod caled o waith, byddai dynion ifanc yn treulio oriau yn cerfio llwy i'w rhoi i ferch. Wrth gymryd y llwy, byddai'r ferch yn dangos bod ganddi ddiddordeb yn y dyn ifanc. Wedyn, byddai'r ddau'n dechrau 'canlyn'.

Nid yng Nghymru'n unig roedd hyn yn digwydd. Llwyau pren roedd pobl cefn gwlad yn eu defnyddio i fwyta, felly roedd pobl yn eu cerfio beth bynnag. Roedd y llwy'n dangos bod y dyn ifanc yn gallu bwydo ei gariadferch. Wrth greu llwy hardd, gymhleth a chain, roedd y cerfiwr yn dangos maint ei gariad at y ferch.

1667 yw dyddiad y llwy gynharaf yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Cadwodd y traddodiad i fynd tan ddiwedd y 19eg ganrif, pan symudodd llawer o bobl o'r wlad i weithio mewn chwareli a phyllau glo.

Erbyn heddiw, mae pobl yn prynu llwyau caru yn anrheg i bobl sy'n priodi. Hefyd mae twristiaid yn hoff iawn o brynu llwyau caru. Mae gemwaith llwyau caru yn boblogaidd iawn gan grefftwyr arian ac aur fel Rhiannon, Tregaron.

Beth yw ystyr rhai patrymau traddodiadol?

Calon = Un galon = y ferch biau calon y dyn ifanc

Dwy galon = mae'r ddau berson yn caru ei gilydd

Olwyn / Rhaw = mae'r dyn ifanc yn barod i weithio er mwyn ei gariadferch

Allwedd, Twll y Clo, Tŷ = y ferch biau'r allwedd i galon y dyn ifanc

Angor = mae'r dyn ifanc yn dangos ei fod wedi cyrraedd y man lle mae eisiau aros, fel llong wedi cyrraedd porthladd

Clychau = mae'r cerfiwr eisiau clywed clychau'r llan (yr eglwys). Hynny yw, mae eisiau priodi'r ferch.

Dail, Blodau = mae'r ddau gariad yn mynd i dyfu gyda'i gilydd

Tarian = mae'r dyn ifanc yn barod i amddiffyn y ferch

Adar = adar serch

Diemwnt, Pedol = lwc dda

Cadwyn = ffrwythlondeb, teyrngarwch. Nifer y dolenni = nifer y plant y byddai'r cerfiwr yn hoffi eu cael

Peli Bychain mewn cawell = nifer y plant y byddai'r cerfiwr yn hoffi eu cael.

Heriol

Sbardun 1 – Y Gadwyn

Cadwyn fu'n cariad ni
yn dyner,
ond heno'n goelcerth
yn clecian,
a minnau
yn ceisio'r ystrydebau
yn oerni'r fflam:

weithiau
dyheaf
am rwygo'r gadwyn
a rhodio'n rhydd:

ond yna,
fel y carcharor coll,
ofnaf oerni'r nos
y tu hwnt i'r mur.

Clymaf sicrwydd y gadwyn
yn gell o'm cwmpas
a phenderfynu
mai
rhy hawdd y rhyddid.

Iwan Llwyd
Allan o: Sonedau Bore Sadwrn, Y Lolfa, 1983.

Sut mae dweud 'Rwy'n dy garu di' mewn 10 iaith wahanol. Ydych chi'n gwybod am ragor?

Ffrangeg: Je t'aime

Almaeneg: Ich liebe dich

Sbaeneg: Te quiero / Te amo

Groeg: S'agapo

Eidaleg: Ti amo

Iaith Gwlad yr Iâ: Ég elska þig (dwedwch: jeg elsca thig)

Iseldireg: Ik hou van jou

Daneg: Jeg elsker dig

Perseg (Farsi): Tora dust midaram

Bengali: Ami tomay bhalobashi

Heriol

Sbardun 2 – Santes Dwynwen

Dwynwen yw nawddsant cariadon Cymru, a byddwn yn dathlu ei gŵyl ar 25 Ionawr. Roedd hi'n un o ferched y brenin Brychan yn y bumed neu'r chweched ganrif.

Mae un stori'n sôn ei bod hi wedi cerdded ar draws Môr Iwerddon am fod arni ofn Maelgwn Gwynedd.

Y stori enwocaf amdani yw ei bod wedi cwmpo mewn cariad â Maelon Dafodrill. Dyweddion nhw, ond torrodd Maelon y dyweddïad a thorri calon Dwynwen ar yr un pryd. Cosbodd Duw Maelon drwy ei rewi.

Wedyn, rhoddodd Duw dri dymuniad i Dwynwen, a dymunodd hi:

- 1) fod Maelon yn cael ei ddadrewi;
- 2) ei bod hi'n cael gwrando ar weddïau unrhyw un oedd yn glaf o gariad; ac
- 3) ei bod hi'n cael byw fel lleian ar ei phen ei hun ar Ynys Llanddwyn.

Mae ffynnon Santes Dwynwen ar Ynys Llanddwyn ac roedd pobl yn credu eu bod nhw'n cael eu hiacháu yno.



Cariad ym myd yr adar

Ym myd yr adar, y gwryw sy'n gwneud yr ymdrech i gyd!

Mae sawl enghraifft ym myd yr adar lle:

- mae gan y ceiliog blu llachar
- mae'r ceiliog yn dawnsio i ddenu'r iâr
- mae'r ceiliog adeiladu nyth mawr i greu argraff ar yr iâr
- mae'r ceiliog yn curo ei adenydd neu'n clecian ei big i wneud sŵn mawr.
- Mae'r ceiliog yn rhoi anrheg (e.e. Glas y Dorlan yn rhoi pysgodyn) i'r iâr

Bydd yr iâr yn dewis y ceiliog sydd:

- â'r plu mwyaf llachar
- sy'n dawnsio orau
- sy'n adeiladu'r nyth mwyaf
- sy'n gwneud y sŵn mwyaf
- sy'n rhoi'r pysgodyn mwyaf iddi

Heriol

Sbardun 3 – Y Galon

Ffeithiau sydyn am y galon. Mae'r galon:

- tua'r un maint â gellygen.
- yn pwyso tua'r un faint â dau afal.
- yn pwmpio gwaed fel ei fod yn mynd unwaith o gwmpas y corff mewn tua munud.
- yn curo 60 i 100 gwaith y funud. Mae calon babanod newydd anedig yn curo rhwng 130 a 160 gwaith y funud.
- yn curo tua 100,000 gwaith y dydd, a 2.5 biliwn o weithiau yn ystod eich bywyd



Clefyd y galon

Os yw rhywun yn bwyta gormod o fraster, mae'n crynhoi yn y rhydweliâu. Mae'r galon yn gorfod gweithio'n galetach i bwmpio'r gwaed drwyddyn nhw. Yn y pen draw, mae'r person yn dioddef o glefyd y galon ac efallai'n cael trawiad ar y galon. Sut mae osgoi clefyd y galon:

- ymarfer yn gyson- hyd at 30 munud y dydd. Bydd y galon yn curo'n galetach ac yn dod yn gryfach.
- peidio â bwyta gormod o fraster- bydd hyn yn cadw'r rhydweliâu'n glir
- byw'n iach nawr a phan fyddwch chi'n oedolyn - peidio ag ysmegu na chymryd cyffuriau o gwbl; peidio ag yfed gormod o alcohol.

Sut datblygodd y galon fel symbol cariad?

Roedd pobl yn arfer meddwl bod enaid person yn trigo yn y galon. Felly, roedden nhw'n credu mai yn y galon roedd person yn gwneud penderfyniadau ysbrydol, moesol, ac emosiynol.

Dros y canrifoedd, daeth y galon yn symbol o gariad. Fel arfer, mae'r galon yn goch, lliw sy'n cyfleu gwaed a hefyd emosiwn ac angerdd.